| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 26 Medi 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran sut y mae'n darparu gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gynhaliwyd, perfformiad ac effeithiolrwydd mewn ysgogi gwelliant.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n galluogi'r Pwyllgor fonitro perfformiad a chynnydd yr Adain Archwilio Mewnol yn ogystal â darparu crynodebau o adroddiadau'r Adain Archwilio Mewnol er mwyn i'r Pwyllgor dderbyn sicrwydd ar wasanaethau eraill y Cyngor a meysydd corfforaethol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Dylai'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad, asesu cynnydd a pherfformiad yr Adain Archwilio Mewnol a phenderfynu a oes angen unrhyw sicrwydd pellach ar adroddiadau archwilio.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad hyd at fis Medi 2018 ar:

- Adroddiadau'r Adain Archwilio Mewnol a gyflwynwyd yn ddiweddar h.y. Gwasanaethau Arlwyo;
- Cynnydd gwaith Archwilio Mewnol hyd yma yn 2018-19;
- Cynnydd gyda gwaith gwrth-dwyll;
- Canlyniadau ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol 2016-17; a
- Diweddariad ar berfformiad yr Adain Archwilio Mewnol yn erbyn safonau gosod.

Bydd diweddariad ar lafar ar gynnydd gyda'r adolygiad yn erbyn Arfer Da'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Pwyllgorau Craffu.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y Cynllun yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

**6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**
Dim angen.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Mae gwaith yr adain archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd i'r cyngor mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli a lliniaru risgiau.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.